WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2010

Awduron: Jane Holownia a Richard Harries

Cyf: 522A2010

# Cost Cynhyrchu Prydau Ysgol yng Nghymru

## Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyd-destun | 4 |
| Trosolwg | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Adran 1 – Modelu ariannol | 9 |
| Adran 2 – Gwariant ar brydau ysgol | 13 |
| **Atodiadau** | |
| Model Ariannol cost prydau ysgol 2007-08 | 21 |
| Dadansoddiad manwl costau ar gyfer 2007-08 | 22 |
| Dadansoddiad graffegol – Cost prydau ysgol 2007-08 | 24 |
| Dadansoddiad manwl ariannol ar gyfer 2007-08 | 27 |
| Dadansoddiad graffegol – Ariannu prydau ysgol 2007-08 | 29 |
| Dadansoddiad manwl y nifer sy’n cael prydau ysgol | 31 |
| Dadansoddiad graffegol – Y nifer sy’n cael prydau ysgol | 33 |
| Dadansoddiad ariannol mawnl – Dadansoddiad prydau ysgol yn ôl sector 2007-08 | 35 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Cyd-destun

1. Mae deiet gwael yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at lefelau cynyddol gordewdra. Mae ei effaith ar iechyd a lles yn peri pryder i bawb, yn enwedig o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae deiet cytbwys yn hanfodol i blant a phobl ifanc ddatblygu a thyfu'n oedolion iach. Mae ysgolion yn cynnig cyfle delfrydol i gyfleu negeseuon cadarnhaol am fwyta'n iach ac annog plant a phobl ifanc drwy ymddygiad priodol.
2. Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad Weithgor Bwyd mewn Ysgolion ym mis Gorffennaf 2005 i edrych yn benodol ar wella'r ddarpariaeth bwyd a diod mewn ysgolion, a sut i sicrhau y ceir dull cyson a chydlynol o annog gwelliannau.
3. Yn dilyn gwaith y Grŵp hwn, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad Gynllun Gweithredu Blas am Oes ar 22 Tachwedd 2007. Mae'n nodi'r strategaeth ar gyfer gwella safonau maethol bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r camau gweithredu'n amrywio o ddatblygu a darparu gwybodaeth sylfaenol gadarn, i wella arferion gweithio a threfniadau ar gyfer darparu prydau ysgol iach. Mae'n cynnwys saith maes â blaenoriaeth:
   - safonau maeth, bwyd a diod yn ystod y diwrnod ysgol cyfan;
   - arlwyo mewn ysgolion;
   - dull gweithredu ysgol gyfan;
   - marchnata a chyfathrebu;
   - cynaliadwyedd a chaffael;
   - llywio penderfyniadau ar fuddsoddiad ariannol; a
   - monitro, ymchwilio a gwerthuso.
4. Wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Blas am Oes, roedd yn amlwg bod diffyg gwybodaeth sylfaenol gadarn ar gael i'r rhanddeiliaid amrywiol wrth iddynt gydweithio i wella maeth plant ysgol yng Nghymru.
5. Nod Cynllun Gweithredu Blas am Oes yw helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn a materion eraill. Argymhellodd Adran 6 o'r Cynllun Gweithredu y dylid 'ymchwilio i ffyrdd posibl o bennu faint y mae awdurdodau lleol unigol yn ei wario ar brydau bwyd ysgol'. Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad Swyddfa Archwilio Cymru i wneud y gwaith hwn er mwyn datblygu'r agenda yn y maes hwn.
6. Mae'n bwysig nodi mai dim ond rhan o'r darlun yw gwariant ar brydau ysgol wrth archwilio'r gwasanaeth prydau ysgol. Mae angen ystyried ffactorau eraill gan gynnwys safon; nifer y plant sy'n cael prydau; maint yr ysgol; ardal; ethos yr ysgol; cysylltiadau â'r cwricwlwm; a'r amgylchedd; wrth benderfynu ar y camau gweithredu y mae angen eu cymryd i wella'r gwasanaeth prydau ysgol er budd dinasyddion. Nid yw cost ar ei ben ei hun yn fesur o safon y gwasanaeth na boddhad defnyddwyr.

7. Mae *Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach* yn nodi sut, yn ystod cam nesaf y rhaglen gwella gwasanaethau cyhoeddus, y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol i drawsnewid effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus ac ysgogi arloesedd. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu her ddigynsail dros y blynyddoedd nesaf ac wrth wraidd yr her honno mae'r angen i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i bobl Cymru gyda'r un adnoddau neu lai. Mae'r ymarfer penodol hwn yn rhan o waith partneriaeth ehangach rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol i wella'r gwasanaeth prydau ysgol.

## Trosolwg

8. Rydym wedi datblygu model ariannol i nodi'r gwariant cyffredinol ar gost prydau ysgol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau cynnar yn seiliedig ar gymhwyso'r model i'r wybodaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith a gyflawnwyd na'r adroddiad hwn yn archwilio unrhyw agwedd ar ansawdd y gwasanaeth, o ran safonau maethol ac ati, ac fel yr amlinellwyd uchod mae angen ystyried canlyniadau'r gwaith hwn fel rhan o'r gwasanaeth prydau ysgol cyffredinol.

9. Dylid nodi y gall cost darparu gwasanaethau penodol, gan gynnwys prydau ysgol, amrywio ledled Cymru a bydd yn gwneud hynny am lawer o resymau, ac efallai na fydd cymharu costau yn syml nac yn ystyrlon. Serch hynny, mewn awdurdod lleol efallai y gellir defnyddio data ar gostau i wella effeithlonrwydd.

10. Yn 2009, defnyddiwyd y model i nodi'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer 2007-08 gan 18 o'r 22 o awdurdodau lleol. Mae'r ymarfer hwn wedi darparu gwybodaeth werthfawr am gost prydau ysgol i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Blas am Oes.

11. Fodd bynnag, bydd angen gwneud mwy o waith. Nid yw'r model ariannol i nodi gwariant awdurdodau lleol ar brydau ysgol wedi'i fireinio ddigon eto ac nid yw'r holl awdurdodau'n ei ddefnyddio ddigon eto i'w alluogi i weithredu fel adnodd rheoli cadarn a chynhwysfawr. Bellach, mae angen i awdurdodau lleol gymryd mwy o berchenogaeth dros y model er mwyn cynnal y momentwm cychwynnol.

12. Er na all y model gefnogi gwaith gwerthuso a chynllunio manwl, mae'n darparu canllaw cyffredinol defnyddiol. Mae'n dangos bod cyfanswm cost flynyddol y gwasanaeth prydau ysgol yn 2007-08 yn fwy na £90 miliwn, ac mae'n dangos amrywiaeth sylweddol o ran cost a nifer y plant sy'n cael prydau ysgol rhwng awdurdodau er na cheir cydberthynas clir rhwng y ddwy agwedd.

13. Ein canfyddiadau cyffredinol yw:

- **Mae'r model ariannol i nodi gwariant awdurdodau lleol ar brydau ysgol yn ddefnyddiol ond nid yw wedi'i fireinio na'i berchenogi ddigon gan yr awdurdodau eto i'w alluogi i weithredu fel adnodd rheoli cadarn a chynhwysfawr:**
  - defnyddir llawer o ddulliau casglu data gwahanol ond ni chânt eu defnyddio'n eang i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth;

- mae'r model ariannol newydd i nodi gwariant awdurdodau lleol ar brydau ysgol a ddatblygwyd yn 2009 yn fan cychwyn defnyddiol i ddatblygu gwerthusiad manylach; ac
- nid yw'r model eto'n ddigon cadarn neu nid yw awdurdodau wedi ymrwymo ddigon i'w ddefnyddio i ddarparu'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth am berfformiad sydd ei hangen.

- **Gwariodd Cymru fwy na £90 miliwn ar y gwasanaeth prydau ysgol (gwariwyd 42 y cant o'r swm hwn gan awdurdodau lleol) yn ystod 2007-08 ac amrywiodd y gost, cyllid a nifer y plant a gâi prydau ysgol yn sylweddol ar draws awdurdodau lleol:**
  - roedd cyfanswm cost prydau ysgol yn fwy na £90 miliwn ar gyfer 2007-08 er bod amrywiad eang yng nghost prydau ysgol ledled Cymru;
  - gwnaeth awdurdodau lleol ariannu tua 42 y cant o'r gwasanaeth prydau ysgol yn ystod 2007-08, sy'n cyfateb i fwy na £37 miliwn; ac
  - roedd 51 y cant o blant yn cael prydau ysgol ledled Cymru yn 2007-08 ar gyfartaledd, er bod hyn yn amrywio o 36 y cant i 76 y cant.

14. Mae gwersi i'w dysgu o'r gwaith a wnaed hyd yma. Mae angen ymrwymiad a chefnogaeth sylweddol gan yr holl randdeiliaid perthnasol, yn benodol awdurdodau lleol, er mwyn i hyn lwyddo. Nodwyd bod awydd cyffredinol i ddarparu gwybodaeth fwy cadarn ac mae trafodaethau diweddar wedi bod yn galonogol, gan amlygu bod gwelliannau'n cael eu gwneud o ran rhannu gwybodaeth, cyfathrebu a deall materion a chynigion i helpu a chefnogi. Fodd bynnag, mae angen newid sylweddol er mwyn datblygu'r model hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

15. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi dangos ymrwymiad sylweddol i wella gwybodaeth yn y maes hwn. Mae angen iddynt sicrhau bod y momentwm a adeiladwyd yn y misoedd diwethaf yn parhau a bod awdurdodau lleol yn cymryd perchenogaeth dros y broses.

## Argymhellion

16. O ganlyniad i'n gwaith, rydym wedi nodi nifer fach o argymhellion allweddol, y dylai Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol eu hystyried wrth ddatblygu'r broses hon.

| | |
|---|---|
| A1 | Mae'r model a ddatblygwyd gennym yn darparu sail gadarn i wneud cynnydd o ran gwella gwybodaeth a'r broses o ddadansoddi costau prydau ysgol yn well. Ond, mae'r model ar gam cynnar ac mae angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn gwella cysondeb a chywirdeb. **Dylai awdurdodau lleol gydweithio â rhanddeiliaid i:**<br>• gytuno ar ddiffiniadau a safonau cyffredin ar gyfer pob un o'r dangosyddion;<br>• llunio canllawiau clir a chryno i gynorthwyo'r gwaith o gofnodi'r data'n gywir; a<br>• datblygu amserlen glir ar gyfer casglu a chyflwyno data. |

| | |
|---|---|
| A2 | Mae gan lawer o awdurdodau lleol amheuon ynghylch ymdrechion i fesur costau prydau ysgol. Mae'r canfyddiadau negyddol hyn yn seiliedig ar eu profiad o fentrau blaenorol nad ydynt wedi bodloni eu disgwyliadau am wybodaeth amserol a chywir ac a oedd yn cynnwys nifer o geisiadau am yr un wybodaeth. Fodd bynnag, o weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ein model, ymddengys fod awydd clir am wybodaeth well. **Er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol rhai awdurdodau lleol ac er mwyn annog mwy o ymrwymiad, dylai'r rheini sy'n comisiynu data (a allai gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol (LACA), a'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE)):**<br>• sicrhau eu bod yn darparu canlyniadau ymarferion casglu data i awdurdodau lleol cyn gynted ag sy'n ymarferol;<br>• gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid eraill i rannu data er mwyn osgoi gwneud nifer o geisiadau i awdurdodau lleol; a<br>• chyhoeddi'r data ar gost prydau ysgol er mwyn galluogi pob awdurdod lleol a rhanddeiliad i gael gafael arno a lleihau'r risg o awdurdodau lleol yn cael nifer o geisiadau am yr un wybodaeth. |
| A3 | Nid yw rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio adroddiadau blaenorol ar brydau ysgol i reoli'r gwasanaethau. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod yr adroddiadau wedi bod yn anodd eu deall ac nid yw'r cymaryddion yn berthnasol yn eu barn nhw, gan eu bod yn darparu'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol. **Er mwyn sicrhau ei bod yn fwy tebygol y bydd rheolwyr yn defnyddio'r adroddiadau, dylai awdurdodau lleol sy'n cydweithio â rhanddeiliaid sicrhau:**<br>• bod y data a ddarperir mewn fformat mor glir â phosibl, ei fod yn bodloni egwyddorion arfer da o ran cyflwyno data ac yn defnyddio iaith syml lle y bo'n bosibl; ac<br>• y caiff rhywfaint o ddadansoddiad ei gynnwys sy'n dosbarthu awdurdodau lleol i gategorïau yn ôl y ffordd y maent yn darparu prydau ysgol. |
| A4 | Mae'r data a gasglwyd gennym yn dangos bod amrywiad eang o ran cost, cyllid a nifer y plant sy'n cael prydau ysgol ar draws awdurdodau lleol. Gallai hyn yn rhannol adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau lleol, ond mae hefyd yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau o ran rheolaeth ariannol a safon prydau ysgol. **Dylai awdurdodau lleol:**<br>• **weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid i ddadansoddi'r rhesymau dros yr amrywiad, gan gynnwys gwahaniaethau o ran costau arferion cyfrifyddu;**<br>• **nodi a rhannu arfer da o ran darparu prydau ysgol o safon am gost resymol; a**<br>• **defnyddio'r dadansoddiad o amrywiad a chyfleoedd arfer da i gefnogi dysgu a rennir, er enghraifft drwy weithio gyda Rhwydwaith Arlwyo Cymru i ddefnyddio'r dadansoddiad fel sail i seminarau neu fforymau dysgu a rennir.** |

17. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i ddarparu cymorth a her. Rydym wrthi'n cynllunio i gynnal astudiaeth gwerth am arian genedlaethol mewn perthynas â maeth mewn ysgolion. Rydym yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol ac mae'r astudiaeth yn rhoi'r cyfle i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o'r materion sy'n effeithio ar ddarpariaeth, cost a safon prydau ysgol a'r rhan y maent yn ei chwarae o ran gwella safonau maethol mewn ysgolion yng Nghymru.

# Adran 1 – Modelu ariannol

## Nid yw'r modelu ariannol i nodi gwariant awdurdodau lleol ar brydau ysgol wedi'i fireinio na'i berchenogi ddigon gan yr awdurdodau eto i'w alluogi i weithredu fel adnodd rheoli cadarn a chynhwysfawr

### (a) Defnyddir llawer o ddulliau casglu data gwahanol ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n eang i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth

18. Canfuwyd bod sawl ymarfer casglu data gwahanol eisoes ar waith ar gyfer rhai agweddau ar y gwasanaeth prydau ysgol neu bob un ohonynt. Yn benodol, mae'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) a Chymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol (LACA) yn gofyn i ffurflenni blynyddol gael eu cwblhau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gofyn am ffurflenni pellach 'ad hoc'.

19. Mae cryn ddyblygu yn y prosesau hyn ac mae'r gofynion a'r canllawiau yn amrywio. Nid yw'r data a gesglir yn gyson bob amser neu ni ellir ei gymharu. Prin yw'r ymarferion hyn sy'n cyfleu'r darlun cyflawn yng Nghymru, gan nad yw pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi cymryd rhan.

20. Mae'n amlwg pan fo awdurdodau lleol yn cymryd rhan, bod angen cryn dipyn o amser ac ymdrech i gasglu a chyflwyno'r data perthnasol. Fodd bynnag, yn aml nid yw awdurdodau lleol yn defnyddio canlyniadau'r ymarferion data i reoli eu gwasanaethau.

21. Y prif resymau a nododd awdurdodau lleol dros beidio â chymryd rhan a/neu ddefnyddio'r data yw:
    - nid yw'r data a ddadansoddwyd bob amser yn cael ei ddychwelyd i awdurdodau lleol; dywedodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi cael cais am wybodaeth am brydau ysgol nifer o weithiau ond na welsant ganlyniadau'r broses wedyn;
    - pan ddaw'r data yn ôl mae'n aml yn hen;
    - nid yw'r data a ddychwelir yn hawdd ei ddeall; a
    - chan fod pob awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth prydau ysgol yn wahanol, nid yw'r cymariaethau'n aml yn ymddangos yn berthnasol.

22. Yn aml nid yw awdurdodau lleol yn rhannu a thrafod y data. Felly maent yn colli cyfleoedd i archwilio materion a nodi llwybrau posibl i sicrhau mwy o effeithlonrwydd. Prin yw'r ymdrech a wnaed gan randdeiliaid i resymoli a gwella'r prosesau, ac mae hyn wedi arwain at brosesau parhaus lle caiff data ei gasglu'n aml, a chyflwynir dadansoddiad ohono'n aml ond prin y caiff ei ddefnyddio fel

adnodd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth prydau ysgol yn lleol.

23. Byddai wedi bod yn well derbyn bod gwahaniaethau'n bodoli o ran darparu'r gwasanaeth ond archwilio goblygiadau hyn a chydweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn. Byddai hyn wedi nodi a ellir sicrhau effeithlonrwydd gwirioneddol ac a oes unrhyw enghreifftiau o arfer da y gellir eu hastudio ar raddfa ehangach.

24. Gan gofio'r amser, yr ymdrech, yr adnoddau a'r costau sydd eu hangen i ddatblygu a chymryd rhan mewn proses gadarn, rhaid i'r holl awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ddangos mwy o berchenogaeth dros y prosesau er mwyn cael unrhyw fudd ohonynt.

## (b) Mae'r model ariannol newydd i nodi gwariant awdurdodau lleol ar brydau ysgol a ddatblygwyd yn 2009 yn fan cychwyn defnyddiol i ddatblygu gwerthusiad manylach

25. Cynhaliwyd trafodaethau manwl â Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol i nodi'r ffordd orau o osgoi dyblygu pellach a baich ar awdurdodau lleol. Cytunwyd i weithio gydag APSE i ddatblygu ei model ariannol ymhellach er mwyn nodi'r data costio sydd ei angen.

26. Roedd yn amlwg bod APSE eisoes yn casglu gwybodaeth berthnasol ar gyfer 13 awdurdod yng Nghymru fel rhan o'i rhwydwaith perfformiad arlwyo. Cytunodd i weithio gyda ni i ddatblygu'r taflenni gwaith cais am ddata ac yna i brosesu'r wybodaeth am gost prydau ysgol ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru.

27. Arweiniodd y gwaith cychwynnol at daflenni gwaith cais am ddata wedi'u haddasu er mwyn nodi data sylfaenol 2007-08. Gan gydweithio ag APSE, llwyddwyd i brofi'r daflen waith drwy ymarfer peilot yn cynnwys un awdurdod lleol. Ceir crynodeb o'r agweddau allweddol ar y model yn Atodiad 1.

28. Cysylltwyd â phrif weithredwyr pob awdurdod lleol i'w hysbysu am y gwaith ac yna anfonwyd y ffurflenni casglu data at bob cyngor ym mis Ebrill 2009 i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mai 2009.

29. Dychwelodd 18 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru y wybodaeth. Cysylltwyd â'r awdurdodau lleol eraill ar sawl achlysur a gofynnwyd iddynt ddarparu'r data ond ni chafwyd dim. Casglwyd y ffurflenni lleol a gwblhawyd a'u hadolygu gan APSE. Anfonwyd y wybodaeth a gasglwyd yn ôl at yr awdurdodau lleol i gytuno arni cyn ei chasglu a'i chrynhoi'n genedlaethol.

30. Gwnaeth hyn ein galluogi i ddadansoddi'r wybodaeth sylfaenol ledled Cymru, rhannu'r wybodaeth â chynghorau unigol a rhoi adborth i nifer o weithdai arlwyo, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## (c) Nid yw'r model eto'n ddigon cadarn neu nid yw'r awdurdodau wedi ymrwymo ddigon i'w ddefnyddio i ddarparu'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth am berfformiad sydd ei hangen

31. Drwy drafod â'r awdurdodau lleol, nodwyd bod nifer o anghysondebau yn y ffurflenni data. Nododd y broses fod angen gwella dulliau sicrhau ansawdd mewnol o fewn yr awdurdodau lleol. Roedd angen addasu'r mwyafrif o'r ffurflenni a gyflwynwyd yng ngoleuni ein her allanol i'r broses.

32. Fel y nodwyd uchod, nid oedd y wybodaeth a gasglwyd yn gyflawn gan mai dim ond 18 o’r 22 o awdurdodau lleol a wnaeth gwblhau'r ffurflenni. Ni wnaeth y broses ychwaith nodi manylion unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi eithrio, sef ysgolion nad ydynt yn cael eu gwasanaethau arlwyo gan y Cyngor ond sydd wedi dewis rhedeg y gwasanaeth eu hunain neu ddefnyddio contractwr preifat.

33. Dangosodd y gwaith er bod awydd gwirioneddol i ddatblygu'r agenda hon, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau system gadarn a chyson ar gyfer casglu, monitro a rheoli gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad berthnasol. Heb system o'r fath, mae'n annhebygol y bydd y gwasanaeth prydau ysgol yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

34. Roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn amheus iawn am werth y gwaith hwn i ddechrau. Roedd llawer o'r farn ei fod yn ymarfer arall na fyddai'n arwain at fudd hirdymor. Fodd bynnag, dengys adborth awydd pendant i ddefnyddio a datblygu'r model hwn.

35. Mae'r mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn cytuno bod angen un broses gynhwysfawr a chadarn. Rhaid i'r broses hon sicrhau bod data'n cael ei gasglu unwaith yn unig; ei fod yn berthnasol, yn gyson ac yn gywir, ac y gellir ei ddefnyddio i helpu i reoli ac ysgogi'r gwasanaeth. Er mwyn gwneud hyn bydd angen:

- cymorth cyffredinol i ddatblygu a defnyddio systemau cyffredin a dealltwriaeth lawn a rennir o'r wybodaeth sydd ei hangen i lywio'r model ariannol;
- deall yr hyn sy'n achosi amrywiadau mewn costau;
- canllawiau manwl a roddir i bob swyddog sy'n ymwneud â'r broses ar gam cynnar;
- sicrhau bod y swyddogion cywir yn ymwneud â'r ymarfer ac ar gael i fynd i'r gwahanol sesiynau adborth a datblygu;
- cyfathrebu gwell rhwng yr awdurdodau lleol a 'rheolwyr' y model ariannol fel y gellir codi unrhyw ymholiadau a'u datrys, lle y bo'n bosibl, fel rhan o'r ymarfer cwblhau cychwynnol;
- amserlen fanwl i sicrhau bod yr ymarferion casglu data yn cael eu targedu'n briodol ac yn gallu darparu gwybodaeth reoli ystyrlon ac amserol;
- sicrhau bod adnoddau priodol, o ran staff, amser a systemau, ar gael gan bob awdurdod lleol i gefnogi'r broses o gymhwyso'r model ariannol; a
- chydweithio a deialog gwell rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol.

36. O gael gwybodaeth fwy cadarn, gall rhanddeiliaid ddefnyddio'r wybodaeth i feincnodi'r gwahanol brosesau darparu gwasanaeth a nodi effeithlonrwydd a gwelliannau. Bydd gwybodaeth well yn eu helpu i nodi a rhannu arfer da a dysgu.

37. Dengys ein gwaith ar y model y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried cyhoeddi'r adroddiad hwn.

38. Ymddengys fod ymrwymiad sylweddol gan swyddogion llywodraeth y Cynulliad a'r mwyafrif o swyddogion arlwyo awdurdodau lleol i wella'r broses o gasglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol. Mae Rhwydwaith Arlwyo Cymru wrthi'n sefydlu a byddai'n fforwm delfrydol i ddatblygu a rheoli gwaith y gwasanaeth prydau ysgol i liniaru a defnyddio'r model ariannu wrth geisio cyflawni'r amcanion a nodwyd yng *Nghynllun Gweithredu Blas am Oes*.

**Argymhellion**

A1 Mae'r model a ddatblygwyd gennym yn darparu sail gadarn i wneud cynnydd o ran gwella gwybodaeth a'r broses o ddadansoddi costau prydau ysgol. Ond, mae'r model ar gam cynnar ac mae angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn gwella cysondeb a chywirdeb. **Dylai awdurdodau lleol gydweithio â rhanddeiliaid i:**

- gytuno ar ddiffiniadau a safonau cyffredin ar gyfer pob un o'r dangosyddion;
- llunio canllawiau clir a chryno i gynorthwyo'r gwaith o gofnodi'r data'n gywir; a
- datblygu amserlen glir ar gyfer casglu a chyflwyno data.

A2 Mae gan lawer o awdurdodau lleol amheuon ynghylch ymdrechion i fesur cost prydau ysgol. Mae'r canfyddiadau negyddol hyn yn seiliedig ar eu profiad o fentrau blaenorol nad ydynt wedi bodloni eu disgwyliadau am wybodaeth amserol a chywir ac a oedd yn cynnwys nifer o geisiadau am yr un wybodaeth. Fodd bynnag, o weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ein model, ymddengys fod awydd clir am wybodaeth well. **Er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol rhai awdurdodau lleol ac er mwyn annog mwy o ymrwymiad, dylai'r rheini sy'n comisiynu data (a allai gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol, a'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus):**

- sicrhau eu bod yn darparu canlyniadau ymarferion casglu data i awdurdodau lleol cyn gynted ag sy'n ymarferol;
- gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid eraill i rannu data er mwyn osgoi gwneud nifer o geisiadau i awdurdodau lleol; a
- chyhoeddi'r data ar gost prydau ysgol er mwyn galluogi pob awdurdod lleol a rhanddeiliad i gael gafael arno a lleihau'r risg o awdurdodau lleol yn cael nifer o geisiadau am yr un wybodaeth.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A3 | Nid yw rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio adroddiadau blaenorol ar brydau ysgol i reoli'r gwasanaethau. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod yr adroddiadau wedi bod yn anodd eu deall ac nid yw'r cymaryddion yn berthnasol yn eu barn nhw, gan eu bod yn darparu'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol. **Er mwyn sicrhau ei fod yn fwy tebygol y bydd rheolwyr yn defnyddio'r adroddiadau, dylai awdurdodau lleol sy'n cydweithio â rhanddeiliaid sicrhau:**<br>• bod y data a ddarperir mewn fformat mor glir â phosibl, ei fod yn bodloni egwyddorion arfer da o ran cyflwyno data ac yn defnyddio iaith syml lle y bo'n bosibl; ac<br>• y caiff rhywfaint o ddadansoddiad ei gynnwys sy'n dosbarthu awdurdodau lleol i gategorïau yn ôl y ffordd y maent yn darparu prydau ysgol. |

## Adran 2 – Gwariant ar brydau ysgol

### Gwariodd Cymru fwy na £90 miliwn ar y gwasanaeth prydau ysgol (gwariwyd 42 y cant o'r swm hwn gan awdurdodau lleol) yn ystod 2007-08 ac amrywiodd y gost, cyllid a nifer y plant a gâi prydau ysgol yn sylweddol ar draws awdurdodau lleol

39. Nododd y model a ddatblygwyd fod Cymru wedi gwario mwy na £90 miliwn (wedi allosod) ar y gwasanaeth prydau ysgol yn ystod 2007-08 er bod y gost, cyllid a nifer y plant a gâi prydau ysgol yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol.

- Roedd cyfanswm cost prydau ysgol yng Nghymru yn fwy na £90 miliwn (wedi allosod). Roedd amrywiad eang yng nghost prydau ysgol ledled Cymru, o ran cyfanswm y gost a'r dadansoddiad o gostau rhwng bwyd, staffio a chostau eraill.
- Gwnaeth awdurdodau lleol ariannu tua 42 y cant o'r gwasanaeth prydau ysgol yn ystod 2007-08, a oedd yn cyfateb i tua £37 miliwn, er bod lefel y cyllid gan gynghorau'n amrywio'n sylweddol.
- Roedd 51 y cant o blant yn cael prydau ysgol ledled Cymru yn 2007-08 ar gyfartaledd, er bod hyn yn amrywio o 36 y cant i 76 y cant.
- Ni wnaeth y data a gasglwyd nodi unrhyw gydberthynas rhwng y gost a nifer y plant sy'n cael prydau ysgol ar gyfer 2007-08.

40. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol hefyd yn agored i rai cafeatau.

- Mae'r ffigurau wedi'u hallosod ar sail Cymru gyfan er mwyn nodi gwerth amcangyfrifedig ar gyfer y 22 o gynghorau (dim ond 18 o'r 22 o awdurdodau lleol a roddodd wybodaeth ariannol ac ni chafodd elfennau o'r ffurflenni hyn (yn benodol, y dadansoddiad yn ôl sector) eu cwblhau bob amser).
- Nid yw'r ysgolion sydd wedi eithrio wedi'u cynnwys yn yr ymarfer cychwynnol hwn; mae 68 o ysgolion wedi eithrio ledled Cymru (8 ysgol gynradd a 60 o ysgolion uwchradd), er bod y niferoedd yn amrywio ledled Cymru.
- Nid yw'r data wedi'i archwilio, er bod rhywfaint o waith sicrhau ansawdd a gwirio cysondeb wedi'i wneud bod drwy:
  - ddilysu a gwirio'r data a ddychwelwyd gan APSE yn gyson;
  - trafod y data mewn grwpiau rhwydwaith arlwyo rhanbarthol ledled Cymru;
  - ymweld â sampl o awdurdodau lleol i drafod data; a
  - chymeradwyo'r data'n derfynol gan yr holl awdurdodau lleol.

41. Mae'r ffigurau ar gyfer nifer y plant sy'n cael prydau mewn ysgolion uwchradd yn deillio o gyfrifiad cyfwerth â phryd ysgol; mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar sut y caiff hyn ei fesur yn y blynyddoedd i ddod. Y rheswm dros hyn yw bod y mwyafrif o ysgolion uwchradd yn defnyddio system caffeteria ac felly mae'n anoddach nodi prydau, gan fod disgyblion yn aml yn prynu 'byrbrydau'.

## (a) Roedd cyfanswm cost prydau ysgol yn fwy na £90 miliwn ar gyfer 2007-08 er bod amrywiad eang yng nghost prydau ysgol ledled Cymru

42. Dychwelodd 18 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ddata a ddangosodd eu bod wedi gwario cyfanswm o bron i £75 miliwn (sy'n cyfateb i £2.14 fesul pryd) ar y gwasanaeth prydau ysgol yn ystod 2007-08. Nodir dadansoddiad o'r costau yn Arddangosyn 1 a cheir manylion yn Atodiad 2.

**Arddangosyn 1: Cost prydau ysgol (ar gyfer 18 o'r 22 o gynghorau)**


| Costau | £'000oedd | Cost fesul pryd |
|---|---:|---:|
| Costau bwyd | 23,163 | £0.66 |
| Costau staff | 39,018 | £1.12 |
| Costau eraill | 12,552 | £0.36 |
| **Cyfanswm cost prydau ysgol** | **74,733** | **£2.14** |

43. Er mai dim ond 17 o ffurflenni a gwblhawyd, darparodd un cyngor (Gwynedd) wasanaeth prydau ysgol i gyngor cyfagos (Ynys Môn) yn ystod y cyfnod a gwmpesir, sef 2007-08. Felly, mae'r data a gafwyd yn cynnwys 18 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Pan wnaethom allosod y wybodaeth, yn seiliedig ar y

model ariannol, roedd cyfanswm cost ddangosol prydau ysgol ledled Cymru yn fwy na £90 miliwn.

44. Nododd y data a gasglwyd mai costau staff a chostau bwyd yw'r costau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth prydau ysgol, ac sy'n cyfrif am fwy nag 83 y cant o gyfanswm y gwariant yn y maes hwn. Dangosodd y dadansoddiad hefyd fod amrywiad eang yng nghost prydau ysgol ledled Cymru, o ran cyfanswm y gost a'r dadansoddiad o gostau rhwng bwyd, staffio a chostau eraill. Nodir hyn yn Arddangosyn 2 a cheir manylion yn Atodiad 2.

**Arddangosyn 2: Cyfanswm cost prydau ysgol ledled Cymru**





45. Mae arddangosyn 2 yn dangos bod cost gyfartalog pryd ysgol i awdurdod lleol yng Nghymru yn 2007-08 yn amrywio o £1.63 i £2.96, gyda ffigur cyfartalog o £2.14 yng Nghymru. Nid yw'r ddau awdurdod lleol â'r costau uchaf yn cynnwys ysgolion uwchradd, gan fod pob un o'u hysgolion uwchradd wedi eithrio o wasanaeth arlwyo'r awdurdod lleol. Drwy hepgor y ddau awdurdod hyn, cost uchaf pryd ysgol yw £2.51.


46. Mae'n glir bod amrywiad sylweddol yn y costau ledled Cymru ac mae lle i archwilio'r rhesymeg dros y gwahaniaethau hyn a chwilio am effeithlonrwydd.

47. O ganlyniad i'n trafodaethau â llawer o awdurdodau lleol a rheolwyr arlwyo ledled Cymru, canfuwyd consensws mai'r prif faes anghysondeb o ran costau oedd ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, nid oedd y data a ddarparwyd yn cefnogi'r farn hon. Mae Arddangosion 3 a 4 yn nodi'r amrywiadau o ran costau ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd.

**Arddangosyn 3: Cost prydau ysgol Gynradd ledled Cymru**




**Arddangosyn 4: Cost prydau ysgol Uwchradd (cyfwerth) ledled Cymru**




48. Er bod rhai o'r ffigurau yn eithafol, ceir amrywiad eang eto rhwng awdurdodau lleol o ran cost pryd ysgol gynradd ac uwchradd. Mae angen gwneud rhagor o waith i archwilio'r rhesymeg dros yr amrywiannau hyn.

49. Dangosodd y gweithdai gonsensws ar rai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar gostau prydau ysgol:

- mae awdurdodau lleol yn rhedeg ac yn darparu gwasanaethau prydau ysgol yn wahanol; mae rhai'n cynnwys holl gostau'r awdurdod lleol, ac eraill ond yn cynnwys costau'r gwasanaeth arlwyo - caiff elfennau o'r gost eu dosbarthu'n wahanol hefyd;
- maint y gwasanaeth - er enghraifft mewn rhai awdurdodau lleol mae canran uchel o ysgolion uwchradd wedi eithrio o wasanaethau arlwyo'r awdurdod lleol (100 y cant mewn dwy ardal);
- mae llawer o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu polisïau sy'n defnyddio cynnyrch lleol/o Gymru - dengys yr adborth gan reolwyr arlwyo bod hyn wedi cael effaith ar y pris a delir am fwyd; ac
- mae maint a safle gwledig yr ysgolion yn cael effaith ar gostau cyflenwi a chludo.

50. Fel y nodwyd yn adran flaenorol yr adroddiad, drwy gydweithio i ddatblygu cylch nesaf y model ariannol, dylai rhanddeiliaid allu cael gwared ar lawer o'r anghysondebau a nodir uchod. Fodd bynnag, gan gofio'r amrywiad yng nghost prydau ysgol ymddengys fod lle gwirioneddol i awdurdodau lleol ddysgu oddi wrth ei gilydd a gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth.

51. Mae angen i awdurdodau lleol gydweithio nawr i adolygu a gweithio drwy'r amrywiannau hyn o ran costau. Mae'n bosibl eu bod mewn safle gwell i ystyried datblygu consortia prynu a defnyddio modelau megis Gwerth Cymru. Mae'n bosibl bod lle i negodi prisiau gwell am fwyd, cyflenwadau eraill a gwasanaethau cysylltiedig.

## (b) Gwnaeth awdurdodau lleol ariannu tua 42 y cant o'r gwasanaeth prydau ysgol yn ystod 2007-08, sy'n cyfateb i dros £37 miliwn

52. Dengys ein gwaith ar ffurflenni data 2007/2008 fod y 18 o awdurdodau lleol wedi gwario mwy na £31 miliwn (sy'n cyfateb i £0.90 fesul pryd) ar brydau ysgol. Caiff hyn ei grynhoi yn Arddangosyn 5 a cheir manylion yn Atodiad 3.


**Arddangosyn 5: Ariannu prydau ysgol (ar gyfer 18 o'r 22 o gynghorau)**

| Cyllid | £'000oedd | Cost fesul pryd |
|---|---:|---:|
| Incwm o brydau ysgol â thâl | 43,364 | £1.24 |
| Cyllid y cyngor | 31,369 | £0.90 |
| **Cyfanswm a wariwyd ar brydau ysgol** | **74,733** | **£2.14** |

53. Ond, fel y nodwyd uchod, mae'r data a gafwyd yn cynnwys 18 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Ar ôl allosod y wybodaeth, yn seiliedig ar y model ariannol, roedd cyfanswm dangosol cyllid awdurdodau lleol ledled Cymru yn fwy na £37 miliwn.

54. Mae cyfanswm y cyllid a'r math o gyllid a roddir ar gyfer prydau ysgol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, gyda phob awdurdod lleol yn ariannu'r gwasanaeth prydau ysgol, ond i lefelau gwahanol yn dibynnu ar gost y pryd ysgol a'r incwm prydau â thâl a geir. Dangosir yr amrywiad hwn yn Arddangosyn 6.

**Arddangosyn 6: Cyfanswm y cyllid fesul pryd ysgol ledled Cymru**





55. Mae lefel cyllid awdurdodau lleol yn amrywio o £0.22 i £1.72 fesul pryd ysgol. Mae rhaniad y cyllid a welir uchod yn dangos y ffynonellau a ddefnyddir i ariannu'r gwasanaeth ar ôl didynnu'r incwm prydau ysgol â thâl o gost y pryd ysgol. Roedd elfennau'r cyllid yn amrywio'n sylweddol ac yn cynnwys incwm prydau ysgol am ddim, incwm 'cymhorthdal', cyllid o grantiau eraill ynghyd â chyllid i gwmpasu'r 'golled' a wneir ar y gwasanaeth. Nodir y dadansoddiad hwn yn Atodiad 3.

56. Ceir incwm prydau ysgol am ddim fel rhan o'r grant cynnal refeniw ac nid yw wedi'i neilltuo. Mae hyn yn golygu na chaiff yr arian ei glustnodi ond mai awdurdodau lleol sy'n penderfynu faint y dylid ei fuddsoddi yn y gwasanaeth prydau ysgol. Fodd bynnag, mae rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu prydau am ddim i'r disgyblion hynny sy'n gymwys i'w cael. Ni wnaethom ddadansoddi faint o incwm prydau ysgol am ddim a ddyrannwyd yn fewnol i gwmpasu cyfanswm y costau. Ni wnaeth rhai awdurdodau lleol ddatgelu unrhyw incwm prydau ysgol am ddim ar wahân, rhywbeth y mae angen i rwydweithiau arlwyo ei archwilio ymhellach.

## (c) Roedd 51 y cant o blant yn cael prydau ysgol ledled Cymru ar gyfartaledd, gan amrywio o 36 y cant i 76 y cant

**57.** Roedd cyfanswm nifer y plant a gâi prydau ysgol yng Nghymru yn 2007-08 yn amrywio o 36 y cant i 76 y cant, gyda ffigur cyfartalog o 51 y cant yng Nghymru (ceir dadansoddiad manwl yn Atodiad 3: Dadansoddiad o'r Niferoedd sy'n cael Prydau Ysgol). Ceir crynodeb yn Arddangosyn 7.

**Arddangosyn 7: Cyfanswm nifer y plant sy'n cael prydau ysgol ledled Cymru**




**58.** O ganlyniad i'r gweithdai a gynhaliwyd ceir consensws cyffredinol ar rai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar nifer y niferoedd sy'n cael prydau ysgol, yn benodol:

- dewis – o ran bwydlen yr ysgol, cyfleusterau yn yr ysgol (e.e. peiriannau gwerthu) ac yn yr ardaloedd cyfagos (e.e. siopau bwyd eraill);
- cyfleusterau – o ran cyfleusterau ffreutur yr ysgol;
- safle gwledig – yn gysylltiedig â'r ffactor dewis uchod, os nad oes siopau bwyd yn lleol yna mae'n debygol y bydd y niferoedd sy'n cael prydau yn uwch;
- ysgolion llai – os oes gennych ysgol fach mewn cymuned glos mae'r niferoedd sy'n cael prydau ysgol yn dueddol o fod yn uwch; a
- hyd amser cinio – mewn rhai ysgolion mae hyd ac amseru amser cinio yn cael eu hadolygu mewn ymgais i sicrhau bod gan y plant ddigon o amser i fwyta eu cinio.

59. Er nad yw'r rhestr wedi'i chytuno nac yn gynhwysfawr, dyma oedd y prif faterion a nodwyd wrth drafod y wybodaeth yn y model ariannol gydag awdurdodau lleol a gweithdai arlwyo. Mae angen archwilio'r materion hyn ymhellach.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| A4 | Mae'r data a gasglwyd gennym yn dangos bod amrywiad eang o ran cost, cyllid a nifer y plant sy'n cael prydau ysgol ar draws awdurdodau lleol. Gallai hyn yn rhannol adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau lleol, ond mae hefyd yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau o ran rheolaeth ariannol a safon prydau ysgol. **Dylai awdurdodau lleol:**<br>• **weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid i ddadansoddi'r rhesymau dros yr amrywiad, gan gynnwys gwahaniaethau o ran cost arferion cyfrifyddu;**<br>• **nodi a rhannu arfer da o ran darparu prydau ysgol o safon am gost resymol; a**<br>• **defnyddio'r dadansoddiad o amrywiad a chyfleoedd arfer da i gefnogi dysgu a rennir, er enghraifft drwy weithio gyda Rhwydwaith Arlwyo Cymru i ddefnyddio'r dadansoddiad fel sail i seminarau neu fforymau dysgu a rennir.** |

## Atodiad 1

# Model ariannol cost prydau ysgol 2007-08

| Maes gwybodaeth | Cynradd | Arbennig | Uwchradd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestr disgyblion sy'n talu | | | | |
| Hawl i brydau ysgol am ddim | | | | |
| **Cyfanswm ar gofrestr yr ysgol ar gyfer y flwyddyn** | | | | |
| | | | | |
| Nifer y prydau â thâl a weinwyd | | | | |
| Nifer y prydau ysgol am ddim a ddarparwyd | | | | |
| **Cyfanswm nifer y prydau a weinwyd** | | | | |
| | | | | |
| Gwariant Staff | | | | |
| Darpariaethau Bwyd | | | | |
| Safle | | | | |
| Costau uniongyrchol eraill (cludo, cyflenwadau a gwasanaethau ac ati) | | | | |
| Costau contract allanol | | | | |
| Costau contract mewnol | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | | | | |
| Incwm Prydau â Thâl | | | | |
| Cyllid y cyngor | | | | |
| Incwm arall (grantiau, cymhorthdal llaeth) | | | | |
| **Cyfanswm yr incwm** | | | | |

# Atodiad 2(i)

## Dadansoddiad manwl costau ar gyfer 2007-08


| Enw'r Awdurdod | Cyfanswm Gwariant Gros | Costau Staff | Costau Bwyd | Costau Eraill | Cyfanswm y prydau a weinwyd | Cyfanswm cost fesul pryd ysgol | Cyfanswm cost staff fesul pryd ysgol | Cyfanswm cost bwyd fesul pryd ysgol | Cyfanswm costau eraill fesul pryd ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | £4,643, 468 | £2,020,704 | £1,501,528 | £1,121,236 | 2,307,555 | £2.01 | £0.88 | £0.65 | £0.49 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | £3,890,300 | £1,964,093 | £1,203,749 | £722,458 | 1,631,511 | £2.38 | £1.20 | £0.74 | £0.44 |
| Cyngor Dinas a Sir Caerdydd | £7,010,622 | £3,959,005 | £2,507,225 | £544,391 | 4,312,767 | £1.63 | £0.92 | £0.58 | £0.13 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | £8,027,773 | £4,245,540 | £1,921,758 | £1,860,474 | 3,206,500 | £2.50 | £1.32 | £0.60 | £0.58 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | £2,129,722 | £1,069,883 | £440,040 | £619,799 | 856,100 | £2.49 | £1.25 | £0.51 | £0.72 |
| Cyngor Sir Ddinbych | £2,429,061 | £1,361,200 | £834,797 | £233,604 | 1,338,724 | £1.81 | £1.02 | £0.62 | £0.17 |
| Cyngor Sir y Fflint | £3,553,420 | £2,150,877 | £1,040,243 | £362,301 | 1,693,828 | £2.10 | £1.27 | £0.61 | £0.21 |
| Cyngor Gwynedd | £6,117,357 | £3,271,592 | £2,203,017 | £642,748 | 3,463,066 | £1.77 | £0.94 | £0.64 | £0.19 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | £2,669,837 | £1,379,761 | £774,759 | £515,317 | 968,771 | £2.76 | £1.42 | £0.80 | £0.53 |

| Enw'r Awdurdod | Cyfanswm Gwariant Gros | Costau Staff | Costau Bwyd | Costau Eraill | Cyfanswm y prydau a weinwyd | Cyfanswm cost fesul pryd ysgol | Cyfanswm cost staff fesul pryd ysgol | Cyfanswm cost bwyd fesul pryd ysgol | Cyfanswm costau eraill fesul pryd ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Dinas Casnewydd | £3,761,434 | £2,039,516 | £1,149,596 | £572,322 | 1,516,558 | £2.48 | £1.34 | £0.76 | £0.38 |
| Cyngor Sir Penfro | £4,270,317 | £1,669,460 | £1,375,756 | £1,225,101 | 1,727,412 | £2.47 | £0.97 | £0.80 | £0.71 |
| Cyngor Sir Powys | £4,434,332 | £2,416,911 | £1,647,764 | £369,657 | 1,880,719 | £2.36 | £1.29 | £0.88 | £0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £7,327,157 | £3,942,456 | £2,405,501 | £979,200 | 3,654,866 | £2.00 | £1.08 | £0.66 | £0.27 |
| Cyngor a Dinas Abertawe | £5,644,886 | £3,115,297 | £1,806,927 | £722,662 | 2,826,754 | £2.00 | £1.10 | £0.64 | £0.26 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | £2,084,765 | £1,194,968 | £577,884 | £311,913 | 704,289 | £2.96 | £1.70 | £0.82 | £0.44 |
| Cyngor Bro Morgannwg | £3,154,321 | £1,427,037 | £862,067 | £865,218 | 1,372,247 | £2.30 | £1.04 | £0.63 | £0.63 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | £3,584,055 | £1,790,108 | £910,138 | £883,809 | 1,427,403 | £2.51 | £1.25 | £0.64 | £0.62 |
| **Cymru gyfan** | **£74,733,367** | **£39,018,408** | **£23,162,749** | **£12,552,210** | **34,889,070** | **£2.14** | **£1.12** | **£0.66** | **£0.36** |


Atodiad 2(ii)

# Dadansoddiad graffegol – Cost prydau ysgol 2007-08


**Arddangosyn 9: Mae cyfanswm cost pryd ysgol yng Nghymru yn amrywio o £1.63 i £2.96 gyda ffigur cyfartalog o £2.14 yng Nghymru ar gyfer 2007-08**




**Arddangosyn 10: Mae'r Costau Staff a gaiff eu cynnwys yng nghost pryd ysgol yng Nghymru yn amrywio o £0.88 i £1.70 gyda ffigur cyfartalog o £1.16 yng Nghymru ar gyfer 2007-08**




**Arddangosyn 11: Mae'r Costau Bwyd a gaiff eu cynnwys yng nghost pryd ysgol yng Nghymru yn amrywio o £0.51 i £0.88 gyda ffigur cyfartalog o £0.66 yng Nghymru ar gyfer 2007-08**



**Arddangosyn 12: Mae'r Costau Eraill a gaiff eu cynnwys yng nghost pryd ysgol yng Nghymru yn amrywio o £0.13 i £0.72 gyda ffigur cyfartalog o £0.36 yng Nghymru ar gyfer 2007-08**



Atodiad 3(i)

## Dadansoddiad manwl ariannol ar gyfer 2007-08


| Enw'r Awdurdod | Cyfanswm y Cyllid sydd ei angen | Incwm prydau â thâl | Cyllid y cyngor | Cyfanswm y prydau a weinwyd | Cyfanswm y cyllid fesul pryd | Incwm prydau â thâl fesul pryd | Cyllid y cyngor fesul pryd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | £4,643,468 | £3,091,515 | £1,551,953 | 2,307,555 | £2.01 | £1.34 | £0.67 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | £3,890,300 | £1,862,716 | £2,027,584 | 1,631,511 | £2.38 | £1.14 | £1.24 |
| Cyngor Dinas a Sir Caerdydd | £7,010,622 | £4,718,615 | £2,292,007 | 4,312,767 | £1.63 | £1.09 | £0.53 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | £8,027,773 | £3,697,573 | £4,330,200 | 3,206,500 | £2.50 | £1.15 | £1.35 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | £2,129,722 | £1,067,727 | £1,052,995 | 856,100 | £2.49 | £1.26 | £1.23 |
| Cyngor Sir Ddinbych | £2,429,601 | £1,657,967 | £771,634 | 1,338,724 | £1.81 | £1.24 | £0.58 |
| Cyngor Sir y Fflint | £3,553,420 | £2,154,532 | £1,398,889 | 1,693,828 | £2.10 | £1.27 | £0.83 |
| Cyngor Gwynedd | £6,117,357 | £5,349,507 | £767,850 | 3,463,066 | £1.77 | £1.54 | £0.22 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | £2,669,837 | £1,051,433 | £1,618,404 | 968,771 | £2.76 | £1.09 | £1.67 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | £3,761,434 | £1,863,181 | £1,898,253 | 1,516,558 | £2.48 | £1.23 | £1.25 |
| Cyngor Sir Penfro | £4,270,317 | £2,334,763 | £1,953,554 | 1,727,412 | £2.47 | £1.35 | £1.12 |
| Cyngor Sir Powys | £4,434,332 | £2,716,888 | £1,717,444 | 1,880,719 | £2.36 | £1.44 | £0.91 |

| Enw'r Awdurdod | Cyfanswm y Cyllid sydd ei angen | Incwm prydau â thâl | Cyllid y cyngor | Cyfanswm y prydau a weiniwyd | Cyfanswm y cyllid fesul pryd | Incwm prydau â thâl fesul pryd | Cyllid y cyngor fesul pryd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £7,327,157 | £4,075,037 | £3,252,120 | 3,654,866 | £2.00 | £1.11 | £0.89 |
| Cyngor a Dinas Abertawe | £5,644,886 | £3,015,688 | £2,629,198 | 2,826,754 | £2.00 | £1.07 | £0.93 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | £2,084,765 | £871,957 | £1,212,808 | 704,289 | £2.96 | £1.24 | £1.72 |
| Cyngor Bro Morgannwg | £3,154,321 | £1,808,388 | £1,345,934 | 1,372,247 | £2.30 | £1.32 | £0.98 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | £3,584,055 | £2,017,870 | £1,566,185 | 1,427,403 | £2.51 | £1.41 | £1.10 |
| **Cymru gyfan** | **£74,733,367** | **£43,364,356** | **£31,369,011** | **34,889,070** | **£2.14** | **£1.24** | **£0.90** |


Atodiad 3(ii)

# Dadansoddiad graffegol – Ariannu prydau ysgol 2007-08


**Arddangosyn 13: Mae'r incwm prydau ysgol â thâl ar gyfer prydau ysgol yng Nghymru yn amrywio o £1.07 i £1.54 fesul pryd ysgol, gyda ffigur cyfartalog o £1.24 yng Nghymru ar gyfer 2007-08**



**Arddangosyn 14: Mae cyllid cynghorau fesul pryd ysgol yng Nghymru yn amrywio o £0.22 i £1.67 fesul pryd ysgol, gyda ffigur cyfartalog o £0.90 yng Nghymru ar gyfer 2007-08**




**Arddangosyn 15: O fewn cyllid y Cyngor, mae'r incwm prydau ysgol am ddim 'a nodir' fesul pryd ysgol yng Nghymru yn amrywio o £0.00 i £0.68, gyda ffigur cyfartalog o £0.37 yng Nghymru ar gyfer 2007-08**



## Atodiad 4(i)

# Dadansoddiad manwl y nifer sy'n cael prydau ysgol 2007-08


| Enw'r Awdurdod | Cyfanswm ar gofrestr yr ysgolion ar gyfer y flwyddyn | Cofrestr Disgyblion sy'n Talu | Hawl i bryd am ddim | Cyfanswm y prydau a weinwyd | Prydau â thâl a weinwyd | Prydau am ddim a gafwyd | Cyfanswm y prydau a gafwyd | Prydau â thâl a gafwyd | Prydau am ddim a gafwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 4,182,570 | 3,504,346 | 678,224 | 2,307,555 | 1,721,670 | 585,885 | 55% | 49% | 86% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 3,443,640 | 2,736,589 | 707,051 | 1,631,511 | 1,106,299 | 525,212 | 47% | 40% | 74% |
| Cyngor Dinas a Sir Caerdydd | 9,170,597 | 7,520,227 | 1,650,370 | 4,312,767 | 2,867,431 | 1,445,336 | 47% | 38% | 88% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 4,948,428 | 4,197,416 | 751,012 | 3,206,500 | 2,579,078 | 627,422 | 65% | 61% | 84% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 1,603,995 | 1,372,683 | 231,312 | 856,100 | 657,676 | 198,424 | 53% | 48% | 86% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 2,808,636 | 2,422,599 | 386,037 | 1,338,724 | 1,047,171 | 291,553 | 48% | 43% | 76% |
| Cyngor Sir y Fflint | 4,447,083 | 4,021,791 | 425,292 | 1,693,828 | 1,286,996 | 406,832 | 38% | 32% | 96% |
| Cyngor Gwynedd | 4,578,938 | 3,833,432 | 745,506 | 3,463,066 | 3,077,830 | 455,236 | 76% | 78% | 61% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 1,936,338 | 1,493,250 | 443,088 | 968,771 | 621,654 | 347,117 | 50% | 42% | 78% |
| Cyngor Sir Casnewydd | 4,248,654 | 3,458,364 | 790,290 | 1,515,558 | 945,731 | 570,827 | 36% | 27% | 72% |
| Cyngor Sir Penfro | 3,359,451 | 2,926,113 | 433,338 | 1,727,412 | 1,412,924 | 314,488 | 51% | 48% | 73% |
| Cyngor Sir Powys | 3,135,544 | 2,831,576 | 303,968 | 1,880,719 | 1,600,472 | 280,247 | 60% | 57% | 92% |

| Enw'r Awdurdod | Cyfanswm ar gofrestr yr ysgolion ar gyfer y flwyddyn | Cofrestr Disgyblion sy'n Talu | Hawl i bryd am ddim | Cyfanswm y prydau a weinwyd | Prydau â thâl a weinwyd | Prydau am ddim a gafwyd | Cyfanswm y prydau a gafwyd | Prydau â thâl a gafwyd | Prydau am ddim a gafwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 6,871,400 | 5,640,940 | 1,230,460 | 3,654,866 | 2,531,034 | 1,123,832 | 53% | 45% | 91% |
| Cyngor Sir a Dinas Abertawe | 5,485,300 | 4,404,116 | 1,081,184 | 2,826,754 | 2,029,570 | 797,184 | 52% | 46% | 74% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 1,386,760 | 1,127,270 | 241,490 | 704,289 | 485,724 | 218,565 | 51% | 43% | 91% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 3,074,824 | 2,696,520 | 378,304 | 1,372,247 | 1,089,871 | 282,376 | 45% | 40% | 75% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 3,280,600 | 2,841,244 | 439,356 | 1,427,403 | 1,020,661 | 406,742 | 44% | 36% | 93% |
| **Cymru gyfan** | **67,944,758** | **57,028,476** | **10,916,282** | **34,889,070** | **26,011,792** | **8,877,278** | **51%** | **46%** | **81%** |


Atodiad 4(ii)

# Dadansoddiad graffegol – Y nifer sy’n cael prydau ysgol


**Arddangosyn 16: Mae 'cyfanswm' nifer y plant sy'n cael prydau ysgol yng Nghymru yn amrywio o 36 y cant i 76 y cant, gyda ffigur cyfartalog o 51 y cant yng Nghymru ar gyfer 2007-08**



**Arddangosyn 17: Mae nifer y plant sy'n cael 'prydau ysgol â thâl' yng Nghymru yn amrywio o 27 y cant i 78 y cant, gyda ffigur cyfartalog o 46 y cant yng Nghymru ar gyfer 2007-08**




**Arddangosyn 18: Mae nifer y plant sy'n cael 'prydau ysgol am ddim' yng Nghymru yn amrywio o 61 y cant i 96, gyda ffigur cyfartalog o 81 y cant yng Nghymru ar gyfer 2007-08**



# Atodiad 5

## Dadansoddiad ariannol manwl – Dadansoddiad prydau ysgol yn ôl sector 2007-08

| Enw'r Awdurdod | Prydau a weinwyd mewn ysgolion cynradd | Gwariant gweithredol ysgolion cynradd | Cost fesul pryd mewn ysgolion cynradd | Prydau (cyfatebol) a weinwyd mewn ysgolion uwchradd | Gwariant gweithredol ysgolion uwchradd | Cost fesul pryd mewn ysgolion uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 1,198,657 | £2,494,245 | £2.08 | 1,007,184 | £1,806,237 | £1.79 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 1,197,735 | £3,179,538 | £2.65 | 407,648 | £874,736 | £2.15 |
| Cyngor Dinas a Sir Caerdydd | 2,177,841 | £3,339,220 | £1.53 | 2,012,764 | £3,586,569 | £1.78 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 1,522,843 | £5,396,674 | £3.54 | 1,586,064 | £2,169,046 | £1.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 782,332 | £1,933,577 | £2.47 | 50,480 | £177,741 | £3.52 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 631,682 | £1,118,338 | £1.77 | Data a ddarparwyd yn anghyflawn | | |
| Cyngor Sir y Fflint | 769,953 | £1,797,310 | £2.33 | 825,283 | £1,457,364 | £1.77 |
| Cyngor Gwynedd | 1,822,157 | £3,530,718 | £1.94 | 1,160,306 | £2,395,692 | £2.06 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 947,318 | £2,604,688 | £2.75 | Pob ysgol uwchradd wedi eithrio | | |
| Cyngor Sir Casnewydd | 867,196 | £2,063,403 | £2.38 | 603,760 | £1,571,756 | £2.60 |
| Cyngor Sir Penfro | 935,807 | £2,464,476 | £2.63 | 791,605 | £1,626,375 | £2.05 |

| Enw'r Awdurdod | Prydau a weinwyd mewn ysgolion cynradd | Gwariant gweithredol ysgolion cynradd | Cost fesul pryd mewn ysgolion cynradd | Prydau (cyfatebol) a weinwyd mewn ysgolion uwchradd | Gwariant gweithredol ysgolion uwchradd | Cost fesul pryd mewn ysgolion uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Powys | 1,026,376 | £2,668,230 | £2.60 | 781,403 | £1,669,582 | £2.14 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 2,188,952 | £4,390,131 | £2.01 | 1,370,090 | £2,731,549 | £1.99 |
| Cyngor Sir a Dinas Abertawe | Data a ddarparwyd yn anghyflawn | | | Data a ddarparwyd yn anghyflawn | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 676,104 | £2,025,897 | £3.00 | Pob ysgol uwchradd wedi eithrio | | |
| Cyngor Bro Morgannwg | 783,327 | £1,985,350 | £2.53 | 528,965 | £1,054,971 | £1.99 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 803,923 | £1,792,989 | £2.23 | 537,240 | £1,268,169 | £2.36 |
| **Cymru gyfan** | **18,332,203** | **42,784,785** | **£2.33** | **11,662,792** | **22,389,786** | **£1.92** |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk